



Mr R Hughes Pickering
Y Gwasanaeth Cynllunio
Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Gyngor
Penmorfa
Aberaeron
SA 46 OPA

Eich cyf.: LDP Dep Consult NL 1036
Ein cyf.: APP 030-01-007/2
Dyddiad: 16ed Chwefror 2011

Annwyl Mr Hughes Pickering,

Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion – Fersiwn wedi'i hadneuo

Diolch ichi am eich gohebiaeth ddiweddar ac am y copïau o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) wedi'i adneuo a'r dogfennau cysylltiedig.

Cydnabyddir yr hyn yr ydych wedi'i gyflawni wrth yrru ymlaen â'r CDLI, a hynny o fewn amserlen ddiwygiedig eich Cytundeb Cyflawni. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r gwaith technegol helaeth a wnaed ar y sylfaen o dystiolaeth ar gyfer yr CDLI. Bydd angen adolygu amserlen y Cytundeb Cyflawni i gadarnhau dyddiadau'r cyfnodau wedi'r cyfnod adneuo.

Mater i'r Arolygydd Cynllunio a benodir yw penderfynu a ystyrir cynllun yn 'gadarn' ai peidio. Ystyriasom yr CDLI adneuedig yn unol â'r profion cysondeb/ cydlynid ac effeithiolrwydd, ac yn bennaf pa un a roddwyd sylw boddhaol ai peidio i bolisi cynllunio cenedlaethol (prawf C2). Mae'n sylwadau wedi eu rhannu'n 4 categori, ac y mae'r atodiad sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn yn rhoi rhagor o fanylion.

A. Gwrthwynebiadau o dan y profion cadernid C2, CE2: Materion sylfaenol yr ydym o'r farn eu bod yn cynrychioli risg sylweddol i'r awdurdod os na roddir sylw iddynt cyn y cam cyflwyno, ac y gallent amharu ar strategaeth y cynllun:

Dim gwrthwynebiadau.

B. Gwrthwynebiadau o dan y profion cadernid C2, CE1, CE2: Materion lle nad yw'n ymddangos bod y cynllun adneuedig wedi trosi'r polisi cenedlaethol yn foddhaol i'r lefel leol, ac o ganlyniad hwyrach bod tensiynau o fewn y cynllun, sef:

- i. **Sipsiwn a Theithwyr** – tystiolaeth anghyflawn ar gyfer darganfod os oes angen safle neu beidio.
- ii. **Ynni gwynt** – mireinio ffiniau'r ardaloedd chwilio strategol



- iii. **Dosbarthiad tai** – Y mae hi'n parhau i fod yn aneglur sut y mae swyddogaeth yr aneddiadau a'r boblogaeth wedi dylanwadu ar raddfa tyfiant yn y llefydd a enwir. Y mae angen gwell eglurhad o'r ddarpariaeth tai yn yr aneddiadau cyswllt i gyflawni'r strategaeth. Y mae'r gallu i reoli datblygiadau tai yn yr aneddiadau cyswllt yn wan.
- iv. **Yr iaith Gymraeg** – Dylai'r iaith Gymraeg fod yn rhan o asesiad y cynllun wrth lunio strategaeth y cynllun. Byddai'n llesol cael eglurhad o ddilysrwydd dylanwadu cynigion unigolion, a'r safbwynt cyfreithiol a'r berthynas gyda'r asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

C. Mewn perthynas â'r profion cadernid CE2, CE3, CE4: Er na thybir eu bod yn faterion o bwysigrwydd sylfaenol i gadernid yr CDLI, rydym o'r farn bod diffyg sicrwydd neu eglurder yngl n â'r materion canlynol, a thybiwn y byddai'n fuddiol tynnu eich sylw atynt, i'ch galluogi i ystyried amgenach ffyrdd o ddangos bod:

- i. y strategaeth a'r polisiau yn **gyflawnadwy**
- ii. y cynllun yn **hyblyg**, i'w alluogi i ddelio ag amgylchiadau cyfnewidiol
- iii. y mecanweithiau ar gyfer **cyflawni** a **monitro** yn ddigon eglur
- iv. gofynion polisiau arbennig yn ymwneud â **Safleoedd Ewropeaidd** yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y cynllun
- v. dim angen dangos yr angen am **fanwerthu** yng nghanol trefi
- vi. yr angen am bolisiau/ddiffiniad arbennig ar gyfer **arfordir sydd heb ei ddatblygu** wedi eu hystyried
- vii. dim angen **diogelu mwynau** o fewn ffiniau aneddiadau
- viii. y gofynion am fathau arbennig o **dai fforddiadwy** yn eglur.


D. Materion yngl n ag eglurder y cynllun yn gyffredinol, y tybiwn y gallent fod o gymorth i'ch awdurdod ac i'r Arolygydd wrth ystyried newidiadau priodol.

- i. **Perygl Ilifogydd** – eglurhad o'r testun a'r polisi

Mae'r rhain yn faterion yr ydym eisoes wedi eu trafod gyda chi ar adegau yn y gorffennol. Mater i'ch awdurdod chi yw sicrhau bod yr CDLI yn gadarn pan gyflwynir ef i'w archwilio, a mater i'r Arolygydd fydd penderfynu sut yr eir ymlaen â'r archwiliad unwaith y'i cyflwynir.

Cynghorwn chi yn daer i ystyried sut y gallwch wella i'r eithaf y posibilrwydd y dyfernir eich CDLI yn 'gadarn' trwy'r broses archwilio. Os **hoffech gyfarfod yn fuan** i drafod y materion a godir yn ein hymateb, yna cysylltwch â mi cyn gynted â phosibl.

Yr eiddoch yn gywir,



Mark Newey
Cyd-Bennaeth Cynlluniau, Rheolaeth a Pherfformiad
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Atodiad (wedi ei yrru eisoes)